YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

*Ceisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu llety preswyl arall yn ddetholus*

**19.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 96(5) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLl neu feddiannydd am orchymyn ad-dalu rhent).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan wneir y cais gan yr ATLl—

(i) copi o'r hysbysiad o'r achos arfaethedig o dan adran 96(7) o Ddeddf 2004;

(ii) copi o unrhyw sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r hysbysiad;

(iii) naill ai—

(aa) datganiad sy'n cynnwys y manylion y dibynnir arnynt wrth wneud yr honiad bod tramgwydd wedi ei chyflawni o dan adran 95(1) o Ddeddf 2004; neu

(bb) pan fo'r ATLl yn dibynnu ar ddarpariaethau adran 97 o Ddeddf 2004, prawf bod y person priodol wedi'i gael yn euog o dramgwydd o dan adran 95(1) o Ddeddf 2004; a

(iv) dogfen sy'n dangos y budd-dal tai a dalwyd gan yr ATLl mewn cysylltiad â meddiant y fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir bod tramgwydd o'r fath wedi ei chyflawni;

(b) pan wneir y cais gan feddiannydd—

(i) tystiolaeth bod y person priodol wedi ei gael yn euog o dramgwydd o dan adran 95(1) o Ddeddf 2004 neu y gwnaed yn ofynnol drwy orchymyn ad-dalu rhent ei fod yn gwneud taliad mewn perthynas â budd-dal tai; a

(ii) tystiolaeth fod y meddiannydd wedi talu taliadau cyfnodol mewn perthynas â meddiant o'r fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir bod tramgwydd o'r fath yn cael ei chyflawni.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person priodol.